# Polisi Eira

Nod y Brifysgol yw darparu gwasanaeth di-dor i'w holl fyfyrwyr drwy gydol y flwyddyn, mewn adeiladau addysgu a phreswyl. I'r perwyl hwn, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau hyn ym mhob tywydd, gan gynnwys cyfnodau o rew ac eira trwm ond bydd yn sicrhau diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr ar bob adeg.

Os bydd amodau eira a/neu rew, bydd y Brifysgol yn:

- graeanu neu'n taenu halen ar y prif lwybrau mynediad i'r campysau ar gyfer cerbydau er mwyn atal eira neu rew rhag glynu.
- ceisio cadw'r prif fynedfeydd ac allanfeydd i gerddwyr a cherbydau yn glir ac yn ddiogel i'r graddau y mae hynny'n ymarferol â'r adnoddau sydd gennym. (Gweler cynlluniau xxx a xxxx)
- ymdrechu i glirio eira/rhew o’r holl feysydd parcio a ffyrdd i'r graddau y mae hynny'n ymarferol â'r adnoddau sydd gennym.
- clirio eira/rhew o fynedfeydd adeiladau, grisiau a'r llwybrau a ddefnyddir yn amlaf gan gerddwyr.
- disgwyl bod staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn gofalu am eu diogelwch eu hunain mewn tywydd garw.
- cymryd camau i sicrhau bod unrhyw ardaloedd peryglus yn cael eu gwneud yn ddiogel, e.e. eira sydd wedi cwympo o doeau ayb

Os bydd eira neu rew yn parhau am gyfnod hir, gellir rhoi Cynllun Digwyddiad Difrifol y Brifysgol ar waith. Ni fydd hyn yn digwydd ond mewn amgylchiadau lle collir gwasanaethau hanfodol (trydan, dŵr neu nwy) neu os nad oes unrhyw fodd diogel o deithio.

Rhagor o Wasanaethau Rhannwch y dudalen hon